# Cynllun Insiwleiddio Prydain (GBIS) a Chynllun Rhwymedigaeth Cwmni Ynni (ECO)

## NODYN CYFARWYDDYD I DDEILIAID TAI

**This document is also available in English.**

Mae cynlluniau GBIS ac ECO yn canolbwyntio ar wella effeithlonrwydd ynni ar gyfer aelwydydd cymwys, drwy gyllid sy'n cael ei ddarparu drwy Gyflenwyr Ynni. Mae rôl weinyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) o fewn y cynllun yn gyfyngedig ar ffurf cadarnhau cymhwysedd unigolyn / aelwyd ac ni fyddwn yn gyfrifol am roi cyllid, penodi contractwyr na gosod y gwaith. Mae'r cynlluniau ar gael i berchen-feddianwyr a rhai mewn llety rhent preifat.

Rydym wedi llunio rhestr o bwyntiau allweddol a chanllawiau ar gyfer y cynllun isod:

1. Mae gosodwyr yn gweithredu yng Ngogledd Cymru ac yn ehangach ar draws y DU ar hyn o bryd - mae rhai yn cysylltu â chi'n uniongyrchol dros y ffôn, e-bost, cnocio drysau, llythyr neu daflen. Mae CBSC yn argymell yn gryf i chi beidio â derbyn ymholiadau gan alwyr diwahoddiad wyneb yn wyneb a bod gosodwyr yn darparu tystiolaeth briodol o hunaniaeth ym mhob achos. Er mwyn cyflwyno ceisiadau i CBSC, mae'n rhaid i osodwyr gael eu 'hymsefydlu' a chyflwyno copïau o'u hachrediadau PAS, MCS a TrustMark. Nid yw CBSC yn cadw rhestr 'gymeradwy' o osodwyr ac nid yw'n cynnal gwiriadau cefndir hanes busnes. Ni all CBSC argymell na chefnogi unrhyw osodwr penodol a byddem yn argymell bod deiliaid tai yn cyflawni eu diwydrwydd dyladwy eu hunain cyn ymrwymo.

   **Nid yw CBSC yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd sy'n deillio o unrhyw ganlyniad negyddol, difrod neu golled sy'n deillio o unrhyw waith a gyfarwyddir drwy Gynlluniau GBIS neu ECO. Dylid cyflwyno unrhyw gwynion a materion i Ofgem neu TrustMark.**

2. Ar ôl ymholi, bydd gosodwr yn gwirio a yw eich amgylchiadau yn diwallu meini prawf cymhwyso'r cynllun a threfnu arolwg o'r eiddo. Os yw'r eiddo yn diwallu meini prawf cymhwyso technegol y cynlluniau, bydd gofyn i'r deiliad tŷ lenwi ffurflen gais, a fydd yn cael ei chyflwyno i CBSC i bennu cymhwysedd yn swyddogol. Yna bydd y gosodwr yn anfon adroddiad i Gyflenwr Ynni i benderfynu ar lefel y grant sydd ar gael ar gyfer eich gwelliannau effeithlonrwydd ynni.

   **Sylwer bod yn rhaid cyflwyno eich ceisiadau drwy eich gosodwr ac nid yn uniongyrchol i CBSC.**

   Yn ystod y broses ymgeisio, bydd y gosodwr yn gofyn am ddogfennau ategol, a fydd yn dibynnu ar y llwybr cymhwyso yr ydych yn gwneud cais ar ei gyfer. Gallai hyn gynnwys data ariannol neu iechyd ac mae modd canfod rhagor o wybodaeth o ran sut yr ydym yn trin eich data yn ein Hysbysiad Preifatrwydd.

3. Mae CBSC yn codi £150 a TAW i dalu am gostau gweinyddu. Codir y tâl ar y gosodwr nid y deiliad tŷ ac ni all y gosodwr ofyn i chi dalu'r gost o dan unrhyw amgylchiadau.

4. Pan fydd CBSC wedi cadarnhau eich cymhwysedd, byddwn yn cyflwyno datganiad i'r gosodwr. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno i'r Cyflenwr Ynni ochr yn ochr â dogfennau ategol, er mwyn gwneud penderfyniad terfynol o ran eich cymhwysedd.

   **Sylwer nad yw datganiad wedi'i lofnodi gan CBSC yn gwarantu cymhwysedd cyffredinol ar gyfer gosodiad o dan y cynllun.**

5. Pe bai'r Cyflenwr Ynni'n cadarnhau bod eich gosodiad yn gymwys, bydd angen i'r gosodwr ddod i'ch cartref i gwblhau arolwg arall i brisio costau'r gwaith yn fanwl.

   Os yw'r costau gosod yn is na'r gost a gynigiwyd gan y cwmni ynni, caiff y gwaith ei gwblhau'n rhad ac am ddim. Os ddim, mae'n bosibl y bydd gofyn i chi wneud cyfraniad ariannol, bydd y gosodwr yn eich cynghori ynglŷn â hyn.

   **Sylwer, nid oes rhaid i chi barhau â'r gwaith gosod ar y cam yma.**

6. Gall CBSC gyflwyno un datganiad yn unig fesul cyfeiriad. Os bwddwch yn dymuno newid gosodwr ac nad ydych wedi llofnodi cytundeb cytundebol eto, gallwch ymgeisio i'ch datganiad gael ei drosglwyddio i'ch gosodwr newydd. Siaradwch gyda'ch gododwr, sy'n gallu mynd â chi dryw'r broses.